

Adroddiad gwrandawriad cyn penodi

Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd
Cadeirydd y Comisiwn Addysg
Drydyddol ac Ymchwil

Rhagfyr 2022



1. Cyflwyniad

Gwrandawiadau cyn penodi

1. Cytunodd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach y gwaith o graffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno. Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawriad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawriad cyn penodi ai peidio.

Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

2. Sefydlwyd y Comisiwn gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 y gwnaethom ni graffu arni fel Pwyllgor. Bydd y Comisiwn yn stiward cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.¹ Bydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwyllo a rheoleiddio ac ansawdd yr holl addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd yn dod â goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol at ei gilydd ar gyfer:

- Addysg uwch;
- Addysg bellach;
- Chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol;
- Prentisiaethau;
- Addysg i oedolion yn y gymuned;
- Ymchwil ac arloesi.

3. Disgwylir y bydd gan y Comisiwn gyllideb flynyddol o tua £800 miliwn, a dim ond y GIG sydd â chyllideb flynyddol fwy na hynny. Dyma fydd "un o'r cyllidebau uchaf i'w dyrannu i gorff

¹ Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022

hyd braich yng Nghymru". Disgwylir i'r Comisiwn fod yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2024, a disgwylir y bydd ganddo tua 160 o aelodau staff.²

4. Nododd Deddf 2022 11 o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu harfer ar draws ei holl swyddogaethau.



3

Y swydd

5. Bydd deiliad y swydd yn cadeirio Bwrdd y Comisiwn, gan ddatblygu cylch gorchwyl ar gyfer gweithrediad y Comisiwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd yn cyfrannu at y trefniadau pontio i sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei sefydlu erbyn mis Ebrill 2024. Bydd yn gweithio gyda Phrif Swyddog Gweithredol y Comisiwn (sydd eto i'w benodi) ac yn atebol i Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Mae'r penodiad am dymor o bum mlynedd, ac mae'n swydd â thâl. Mae'r swydd ddisgrifiad llawn a manyleb y person ar gael yn Atodiadau A a B.

² [Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022](#)

³ [Llywodraeth Cymru, Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Medi 2022](#)

2. Y broses recriwtio

- 6.** Hysbysebwyd y swydd am bedair wythnos ym mis Medi 2022. Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys canllawiau ar sut i wneud cais, yr amserlen recriwtio, gwybodaeth am y broses recriwtio (gan gynnwys y gallai fod gwrandawriad cyn penodi), cefndir i'r rôl, disgrifiad o'r rôl (gweler Atodiad A), manyleb y person (gweler Atodiad B) a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r rôl.
- 7.** Roedd ymgeiswyr yn gwneud cais drwy wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Daeth 15 o geisiadau i law. Fe wnaeth Ogders, cwmni chwilio gweithredol, ymgymryd â phroses sifftio hir ym mis Hydref 2022 i argymell ymgeiswyr.
- 8.** Yn dilyn y sifft hon gan Ogders, anfonwyd adroddiad at y panel asesu ymgynghorol o'r holl ymgeiswyr i'w galluogi i sifftio a chyflwyno eu hargymhellion. Roedd y panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr allanol. Fe wnaeth y panel argymell 7 ymgeisydd i gael eu gwahodd i ddod i gyfweiliad.
- 9.** Cyn y cyfweiliadau, tynnodd un ymgeisydd ei gais yn ôl. Yna cafodd 6 ymgeisydd eu cyfweild gan yr un panel a oedd wedi ymgymryd â'r sifft. Cytunodd y panel fod tri ymgeisydd y gellir eu penodi.
- 10.** Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg gwrdd â phob un o'r ymgeiswyr y gellid eu penodi ar gyfer sgwrs. Yn dilyn hyn, cadarnhaodd mai Julie Lydon oedd yr ymgeisydd a ffefrir.

3. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru: Julie Lydon

- 11.** Julie Lydon oedd Is-ganghellor a Phrif Weithredwr Prifysgol De Cymru cyn ei hymddeoliad. Mae hi wedi gweithio ym maes Addysg Bellach ac Uwch ers 1989, mewn nifer o sefydliadau gwahanol. Ers ymddeol yn 2021, mae wedi meddu ar rolau anweithredol ac wedi ymgymryd â gwaith ymgynghori. Mae ei rolau anweithredol presennol yn cynnwys Aelod o Fwrdd Prifysgol Solent Southampton, a Phrifysgol Gorllewin Lloegr.

4. Y gwrandawriad cyn penodi

Cyn y gwrandawriad

12. Rhoddodd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru y canlynol i'r Pwyllgor cyn y gwrandawriad:

- CV a datganiad personol Julie Lydon;
- Briff yn crynhoi'r broses recriwtio ac yn nodi data amrywiaeth y 15 o ymgeiswyr yn y cam gwneud cais, y 7 a gyrhaeddodd y rhestr fer, a'r 3 y gellid eu penodi.
- Copi o'r pecyn gwybodaeth a ddarparwyd i ymgeiswyr pan hysbysebwyd y swydd.

13. Dosbarthwyd y dogfennau hyn i aelodau'r Pwyllgor fel papurau preifat cyn y gwrandawriad.

14. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Julie Lydon lenwi holiadur byr cyn y gwrandawriad cyn penodi i ddarparu fframwaith ar gyfer cwestiynau aelodau'r Pwyllgor. Mae'r cwestiynau hyn, ac ymatebion Julie, wedi'u nodi yn Atodiad C.

Y gwrandawriad

15. Yn unol â'r canllawiau ar wrandawriadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

16. Yn ystod y gwrandawriad, a barhaodd oddeutu 45 munud, gofynnwyd ystod o gwestiynau i Julie Lydon ynghylch sut y mae Julie yn bwriadu cyflawni rôl Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae trawsgrifiad llawn o'r gwrandawriad ar gael ar-lein.⁴

17. Roedd ein sesiwn yn ymdrin â:

- sut y bydd Julie yn defnyddio ei sgiliau a'i phrofiadau blaenorol yn y rôl;
- beth roedd hi eisiau ei gyflawni yn ystod ei deiliadaeth;
- sut y byddai'n gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ehangder y sector o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor;

⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Trawsgrifiad y cyfarfod, 15 Rhagfyr 2022

- sut y byddai'n sefydlu perthynas y Comisiwn â Llywodraeth Cymru a chynnal ei annibyniaeth;
- a sut roedd hi'n rhagweld gweithio gyda'r Senedd a'r Aelodau.

5. Safbwynt y Pwyllgor

Y broses benodiadau cyhoeddus

18. Rydym yn parhau i fod ag amheuon a phryderon am elfennau o'r broses benodiadau cyhoeddus, ac yn benodol rôl y Senedd. Fe wnaethom nodi rhai o'r pryderon hyn fel rhan o'n hadroddiad ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru.⁵ Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wrthi'n edrych ar y broses Benodiadau Cyhoeddus ar hyn o bryd. Byddwn yn tynnu ar ein profiadau o'r gwrandawriad cyn penodi hwn, a'r lleill yr ydym wedi'u cynnal, wrth baratoi ein cyflwyniad. Yn ogystal â'r materion a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol ar wrandawriad cyn penodi'r Comisiynydd Plant, byddwn hefyd yn tynnu sylw at ein barn am yr angen i benodiadau fod yn amhleidiol a'r angen i sicrhau bod y broses yn lliniaru unrhyw ragfarn anymwybodol. Credwn fod yr ymchwiliad hwn yn amserol a bydd yn bwysig wrth geisio nodi sut y gellir cryfhau'r broses.

Yr ymgeisydd

Casgliad 1. Ni welwn unrhyw reswm pam na ddylid cymeradwyo penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yr Athro Fonesig Julie Lydon, ar gyfer swydd Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

19. Yn ystod y gwrandawriad, buom yn archwilio materion yn ymwneud ag ehangder cylch gorchwyl y Comisiwn, a phrofiad Julie ei hun, sydd yn bennaf ym maes Addysg Uwch. Dywedodd bod ganddi ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r sector Addysg Bellach drwy ei gwaith gweithredol ac anweithredol hefyd. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y byddai'n ceisio cael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ynghylch elfennau eraill y sector o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn, yn benodol, dysgu yn y gwaith, chweched dosbarth, addysg i oedolion yn y gymuned a darpariaeth ac ymchwil cyfrwng Cymraeg. Fe wnaeth Julie gydnabod bod meysydd lle byddai angen iddi wella ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth, a siaradodd â ni am bwysigrwydd siarad â'r Comisiwn, a deall yr holl sectorau o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn.

⁵ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad gwrandawriad cyn penodi: Yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Comisiynydd Plant Cymru, Rhagfyr 2021

20. Fe wnaethom gynnal y gwrandawriad cyn penodi hwn ar y cyd â'r gwrandawriad cyn penodi ar gyfer Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn (a fydd hefyd yn Gadeirydd ar Bwyllgor Ymchwil ac Arloesedd y Comisiwn.) Nodwyd bod y ddau ymgeisydd sy'n cael eu ffafrio ar gyfer pob swydd yn dod yn bennaf o gefndir Addysg Uwch. O ystyried ehangder cylch gorchwyl y Comisiwn mae'n anffodus nad oes ganddynt brofiad ar y cyd o'r sectorau prentisiaethau a dysgu yn y gwaith; addysg i oedolion yn y gymuned; chweched dosbarth; a darpariaeth ac ymchwil cyfrwng Cymraeg. Nid beirniadaeth o unrhyw un o'r ymgeiswyr unigol, oedd â sgiliau a phrofiad perthnasol ar sail unigol yw hyn, ond mwy i nodi ein siom nad yw cymysgedd cefndiroedd y ddau benodiad yn rhoi effaith i ehangder y sector. Yn yr un modd, nodwn nad yw'r un o'r ymgeiswyr yn Gymry Cymraeg a byddem yn eu hannog i ddysgu Cymraeg. Rydym hefyd wedi nodi'r arsylwadau hyn yn yr adroddiad ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd.

Atodiad A: Disgrifiad rôl Cadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Rôl a Chyfrifoldebau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadeirio Bwrdd y Comisiwn, gan ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer ei weithredu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn yn cyfrannu at y trefniadau pontio sydd eu hangen er mwyn sefydlu'r corff newydd erbyn Ebrill 2024. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i sicrhau bod systemau a phrosesau priodol yn eu lle i'w gwneud yn bosibl i staff drosglwyddo'n ddidrafferth.

Byddant yn atebol i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, ac yn gyfrifol am lywio penderfyniadau a'r hyn a gyflawnir mewn perthynas â sefydlu'r Comisiwn. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyngor awdurdodol ac amserol yn cael ei roi i Weinidogion Llywodraeth Cymru drwy swyddogion, a bydd yn rhoi adborth i'r sectorau.

Bydd deiliad y swydd:

- Yn gweithio ar y cynllun gweithredu gyda'r Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Swyddog Cyfrifol Llywodraeth Cymru ar Fwrdd y Rhaglen i sicrhau bod y Comisiwn yn weithredol mewn pryd ac yn addas i'w ddiben erbyn ei ddiwrnod gweithredu cyntaf
- Yn sicrhau bod gan holl aelodau Bwrdd y Comisiwn rolau a chyfrifoldebau clir o ran sefydlu a datblygu'r Comisiwn
- Yn arwain bwrdd y Comisiwn o ran pennu cyfeiriad strategol y Comisiwn, ac asesu a gwerthuso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth fusnes, cynlluniau ac amcanion perfformiad y sefydliad
- Yn cadeirio a hwyluso cyfarfodydd Bwrdd y Comisiwn, penderfynu ar yr agenda a chymeradwyo'r cofnodion
- Yn llywio'r gwaith o reoli perfformiad y Prif Swyddog Gweithredol ac yn gyfrifol am aelodau Bwrdd y Comisiwn
- Yn asesu gweledigaeth, cenhadaeth a nodau'r Comisiwn
- Yn meithrin perthynas gydag arweinwyr y sector

- Yn darparu cynrychiolaeth ar gyfer prosiectau ar lefel uwch, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian; sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar y corff drwy Statud
- Yn helpu i benodi'r Prif Swyddog Gweithredol.

Atodiad B: Manyleb y person, Cadeirydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Manyleb y Person – Meini Prawf Hanfodol

I gael eich ystyried, mae'n rhaid ichi ddangos bod gennych y nodweddion a'r sgiliau i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad hwn:

- Record rhagorol o arweinyddiaeth, goruchwyllo trawsnewid sefydliadol, a datblygu ar lefel Bwrdd neu gyfatebol mewn sefydliad cymhleth, a'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth gydlynol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth aeddfed o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun polisi addysg a hyfforddiant trydyddol Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, a dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu'r Comisiwn
- Sgiliau rhesymu dadansoddol a chrebwyll o'r radd flaenaf, yn seiliedig ar allu arbenigol i brosesu a dehongli gwybodaeth gymhleth Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl
- Record gwych o ysbrydoli ac ysgogi staff a rhanddeiliaid sy'n dangos eich bod yn gweithio mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr staff
- Record o reoli cydberthnasau cymhleth a heriol yn llwyddiannus, gan gynnig cymorth priodol yn ôl yr angen a rheoli perfformiad yn effeithiol
- Y gallu i ddeall ymrwymadau rôl gyhoeddus, fel y'u diffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan
- Y gallu i herio meddylfryd a phrofi barn, gyda pharodrwydd i gael eich herio, ac annog trafodaeth agored er mwyn dod i benderfyniadau gwell.

Dymunol

Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes gennych sgiliau o'r fath, dylech fod yn barod i wneud ymrwymiad i ddysgu ar ôl cael eich penodi. Darperir hyfforddiant, gan gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant unigol.

Atodiad C: Holiadur wedi'i gwblhau a gafodd ei ddychwelyd gan Julie Lydon cyn y gwrandawriad cyn penodi (Saesneg yn unig)

What skills and experience make you well suited to the role?

Over a career spanning four decades I have experience of leading and managing in engineering, retail financial services and in education (higher and further education). I learnt much from each of these very different sectors with specific projects on integration and merger, collaboration and digitalisation of services. I have a proven track record of delivering major change, innovation and working in partnership.

My governance experience is wide ranging from school governor, board member and trustee of a FE college, a conservatoire and a university to non executive roles on UK level organisations such as CBI Wales, Universities and Colleges Employers Association and the Nelson Trust. My election to the Universities UK board by UK Vice Chancellors and subsequent election by Welsh Vice Chancellors to be Vice President Wales provides evidence of my experiences of operating in bodies which are about influencing government policy and funding, direct engagement with politicians and civil servants and building effective relationships based on mutual respect, trust and confidence.

As the first female Vice Chancellor in Wales and a career in executive and non executive roles where I was often the only woman in the room or on the team, I promote equality by taking deliberate, impactful actions to redress the balance, to let all voices be heard and contribute to debate and plans.

I am very proud of being Welsh and of my work in Wales since joining the University of Glamorgan in 2006. During the last fifteen years I have established good relationships and a strong reputation within Wales and beyond with key stakeholders in education (learners, staff, fellow senior leaders and Trades Union), with business, local communities and government (national and local).

What do you think will be the key challenges that you will need to address as the new Commission is established?

Culture and People

Building a strong team at Board level and within the Commission team, which can draw effectively on talents and expertise, to plan and achieve the ambitions for the future of tertiary education and research in Wales.

With my previous experiences of merger I recognise that we will need to bring colleagues together; to build consensus and buy in; and to build good and effective governance whilst communicating and promoting the work of the tertiary sector, future plans and performance reviews to key stakeholders.

Planning

Managing the transition from current arrangements (governance and operations) whilst providing effective oversight/expectations for institutions, ensuring continuing good opportunities and outcomes for learners as the Commission is established and through the transition from current arrangements will be paramount. The development of a plan for the future – short, medium and long term - with realisable goals, measurable targets and gaining buy in from key stakeholders to the plan.

Striking the right balance between the scrutiny and oversight function of the commission whilst achieving the innovation and ambition of the Minister's vision and expectations of impact will be important and necessary.

Maintaining a critical focus on what's in the best interest of learners (current and future) and of research enquiry capabilities/capacity will be the touchstone for the plan and implementation targets.

Delivery

Driving up achievement across all regions and demographics, improving access to study through the medium of Welsh, increasing widening participation and anticipating future workforce needs are the key areas for further development. Alongside a continuing focus on building further the scale and quality of research and impact on business innovation, the environment and economic well being.

Managing relationships, communications and expectations – WG, Key stakeholders (Staff, Learners, Institutions, Partners)

Building and maintaining good working relationships alongside effective communications such that we provide consistent and informed communications to keep them aware and updated on achievements and future projects/programmes; we

With the current economic and environmental challenges of the UK and globally, bringing key players in post 16 world to work together is critical to identify and deliver an impactful programme of work and to secure further investment for tertiary education and research.